


**cymdeithas**   
**yr iaith**  
**gymraeg**  
**Papur**  
**Safbwynt**

Y Mesur Iaith  
a Strategaeth  
Iaith Cymru

**cymdeithas**  o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais  
**dros y gymraeg a chymunedau cymru**  
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid

# Cyflwyniad

**P**a wahaniaeth y bydd Mesur Iaith Gymraeg yn ei wneud i fywydau dydd i ddydd pobl Cymru? Dyma'r cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn er mwyn cadw golwg ar berthynas yr iaith Gymraeg â phobl Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl wedi bod yn gofyn i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg beth fydd yn newid yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ganlyniad i'r Mesur Iaith newydd. A fydd ganddyn nhw'r hawl i addysg Gymraeg i'w plant? A fydd cwmnïau ffôn yn darparu ffurflenni yn y Gymraeg? A fyddan nhw'n gallu cael gwersi Cymraeg fel hyfforddiant yn eu swyddi?

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn galw am fesur iaith sy'n cynnwys y tri pheth hyn: Statws swyddogol i'r iaith Gymraeg, hawliau statudol i bobl Cymru i'r iaith Gymraeg, a Chomisiynydd Iaith a fydd â'r grym i reoleiddio'r mesur. Heb gynnwys hawliau, ni fydd gan y mesur ddannedd i fynd i'r afael â'r berthynas rhwng pobl Cymru a'r iaith. Credwn y bydd statws swyddogol yn rhan hollbwysig o sicrhau statws a thriniaeth well i'r iaith. Dim ond wrth gyflwyno hawliau cyflawn ynghyd â statws y meddir camu tuag at normaleiddio'r iaith yng Nghymru.

Yn unol â rhaglen lywodraethol Cymru'n Un, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe ymgeisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am bwerau dros yr iaith Gymraeg. Enw'r cais am y pwerau hyn oedd 'Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (Iaith Gymraeg)', ac ni nodwyd beth oedd bwriadau na nod y Llywodraeth wrth gyflwyno'r Gorchymyn hwn. Yn achos y Gorchymyn yn ymwneud â hawliau plant, er enghraifft, nodwyd yn glir mai'r nod oedd diogelu plant mewn perygl. Ni nodwyd y bwriad mewn perthynas â'r Gorchymyn ar yr iaith Gymraeg, a dyma fynd at wraidd y broblem gyfredol: mae angen gosod y nod ar gyfer y Gymraeg a'i pherthynas â phobl Cymru.

Osmai Cymru Ddwyeithog yw'r nod, mae angen egluro'r eidiolog waelodol sy'n perthyn i'r 'dwyeithrwydd' hwnnw. Galwn ar y Llywodraeth i osod y naratif ynghylch beth yw ystyr y dwyeithrwydd maen nhw

eisiau ei wireddu yng Nghymru. Os yw'r llywodraeth yn meddwl mai modd o fod yn fwy anwleidyddol a gofalus yw defnyddio rhetheg dwyeithrwydd heb feddwl beth mae hynny'n ei olygu, maen nhw mewn perygl o ddisodli holl fwriad y symudiad i adfywio defnydd o'r iaith a rhoi cefnogaeth a hawliau i'w siaradwyr hi.

Mae angen sicrhau fod gan bobl Cymru yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mha bynnag faes y dymunant wneud hynny. Gan fod darpariaeth Gymraeg mor anghyson ac amrywiol, mae disgwiliadau bobl Cymru yn isel iawn ac o ganlyniad cynyddu'r amheuaeth ynghylch y term 'dwyeithrwydd' a beth yn union yw ei ystyr am nad yw yn aml iawn yn golygu cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith. Yn wir, mae'r cyfnod presennol yn dylgedfennol i ddyfodol yr iaith Gymraeg oherwydd fod ewyllys da tuag at yr iaith Gymraeg a dylid mynd ati i osod naratif sy'n argyhoeddi pobl Cymru nad aros ar yr ymylon bydd y Gymraeg.

Trwy greu naratif a fydd yn darlunio ystyr cenedl ddwyieithog lle gellir byw trwy gyfrwng y Gymraeg fel ag y gellir drwy gyfrwng y Saesneg, bydd gosod cynsail ar gyfer yr hwb ychwanegol sydd ei angen ar y Gymraeg i ddal i fyny a phrifffrydio mewn gwasanaethau a gweithleoedd. Bydd hyn yn codi disgwiliadau pobl Cymru ynghylch eu perthynas nhw â'r iaith Gymraeg ac yn raddol cynyddu hyder siaradwyr, dysgwyr a'r sawl sy'n rhoi eu ffydd yn nyfodol yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd drwy danfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Os na fydd arweiniad yn dod ynghylch y ffordd ymlaen i'r iaith Gymraeg o'r 'dwyeithrwydd' gwamal presennol, bydd hyder yn dirywio ac fe gollir y cyfle i'r Gymraeg symud ymlaen fel cyfrwng byw i bobl Cymru.

Roedd rhaid i'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol fod yn ddigon eang er mwyn cael cyfle i lunio mesur a fyddai'n cynnwys hawliau cyflawn, ond cyfyngwyd y Gorchymyn gan wleidyddion yn Llundain a Chymru. Mae'r Gorchymyn bellach wedi gosod arwydd 'Dim Mynediad' ar y ffordd ymlaen i'r iaith

Gymraeg; yr unig obaith bellach yw y bydd y mesur iaith arfaethedig (cyn diwedd tymor Llywodraeth y Cynulliad) yn gosod fframwaith ar gyfer sefydlu hawliau cyfreithiol mewn sectorau ehangach yn y dyfodol.

Yn sgil proses aneglur a dirgel y Gorchymyn, mae'n hollbwysig bod y llywodraeth yn agored i syniadau mudiadau eraill ac nid yn cyhoeddi mesur sydd yn fait accompli ar ddechrau'r proses ddeddfu yn y Cynulliad. Rhaid deall hefyd mai cyfle unwaith mewn cenhedlaeth yw hwn i ddeddfu er mwyn gwella sefyllfa'r iaith. Felly, mae angen mesur cynhwysfawr sydd yn cwmpasu pob rhan o fywyd gan gynnwys yr iaith Gymraeg mewn perthynas â maes addysg, tai, cynllunio a hawliau gweithwyr.

### **Pam hawliau?**

Nid canlyniad organaidd yw dirywiad yr iaith Gymraeg, ond canlyniad polisiâu'r wladwriaeth. Mae'n rhaid i'r wladwriaeth felly wrthdroi'r seicoleg bod y Gymraeg yn israddol i'r Saesneg.

Dywedodd yr athronydd Raz mai pwrpas hawliau dynol yw parchu hawliau moesol. Nid yw'n ddigon disgrifio effaith polisiar unigol yn fel 'ansensitif rwydd diwyllianol' oherwydd nid yw'n gwneud iawn am y sarhad os nad yw dewis iaith yr unigolyn yn cael ei barchu.

Mae sicrwydd ieithyddol yn ganolog i hawliau iaith os yw rhywun i fod yn rhydd i ddefnyddio'r iaith ag urddas. Os nad yw ef neu hi yn cael caniatâd i gyfathrebu gyda'r llywodraeth, awdurdodau ac eraill sy'n rhan o fywyd dyddiol caiff urddas yr unigolyn ei warafun. Mae'n bwysig pwysleisio y caiff pobl sy'n dymuno defnyddio neu weld yr iaith Gymraeg eu hamddifadu o'u hurddas heddiw.

Nid prosiect cadwriaethol yw'r iaith iddyn nhw, ond realiti dydd i ddydd. Oherwydd polisiâu anoddefgar mewn nifer o wledydd Ewrop, dewiswyd un iaith i fod yn iaith y wladwriaeth. Yng Nghymru, y Saesneg oedd yr iaith honno; ein dadl ni yw bod angen hawliau iaith er mwyn rhoi llwyfan i'r Gymraeg ddal i fyny â'r Saesneg ac i ailadeiladu urddas y siaradwyr. Meddai Gwion Lewis yn ei gyfrol *Hawl i'r Gymraeg*:

*Os yw'r wladwriaeth yn derbyn bod gen i'r hawl i'r Gymraeg, ymae'n dweud wrthyf fod fy hunaniaeth ieithyddol yn cael ei chymryd o ddifrif, a'i bod, yn fwy na dim, yn cael ei pharchu. Fel a welwyd yng Nghatalonia, ni all hyn ond llwyddo i wella delwedd iaith, a rhoi hwb seicolegol i'w siaradwyr i deimlo ei bod hi'n rhan ystyrlon o'u bywydau beunyddiol!*

Credwn ei bod hi'n bwysig hefyd bod hawliau ieithyddol yn cael eu dynodi yn y mesur ei hun yn lle dibynnu'n unig ar reoliadau a osodir gan y Llywodraeth sydd mewn grym ar unrhyw gyfnod. Ni ddylai hawliau ieithyddol ddibynnu ar ewylllys da un gweinidog na gwleidydd.

Amcan y papur hwn yw herio'r Llywodraeth i gynnig egwyddorion cryf fel sail i'r Strategaeth iaith newydd ac i greu mesur a fydd yn gosod cynsail hawliau ar gyfer cyfres o fesurau yn y dyfodol agos. Mae Cymdeithas yr Iaith yn cael ei chyhuddo'n fynych o ganolbwyntio ar ddeddfu, ond nodwn mai mesur deddfwriaethol fydd yn rhoi'r sylfaen orau er mwyn newid tirwedd ieithyddol Cymru. Cydnabyddwn fod llawer o bethau eraill y gellir ac y dylid eu gwneud er mwyn normaleiddio'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ac rydym yn edrych ymlaen at y drafodaeth ynghylch sut i gyrraedd y nod hwn. Dyma'r cyfle, drwy'r cyfuniad o ddatblygiadau hyn, i ffurfio naratif hir-dymor a fydd yn gosod y nod ac yn atgyfnerthu ffydd pobl Cymru

**Menna Machreth**

Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Ionawr 2010

# Strategaeth Iaith Gymraeg

Nid yw'n eglur yn y wybodaeth am ymgynghoriad y Strategaeth Iaith Gymraeg beth yw'r egwyddorion y mae'r Llywodraeth am eu gosod yn sylfaen i'r strategaeth. Mae sôn am egwyddorion yn ymwneud â phennu datblygiadau ar sail tystiolaeth a monitro targedau, sy'n canolbwyntio ar y broses. Ble mae'r egwyddorion yn sôn am ddymuniad gwleidyddol Llywodraeth Cymru'n Un ar gyfer yr iaith Gymraeg? Teitl y Strategaeth Iaith yw 'Cymru Ddwyeithog', ond nid oes gosod egwyddorion hyd yn hyn am y nod yn hyn o beth.

Dylai'r Strategaeth osod datganiad o egwyddor yn dweud yn glir pa fath o Gymru ddwyieithog y mae'n anelu amdani e.e. yr ymrwymiad i greu sefyllfa pan fydd modd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ble bynnag maent yn byw yng Nghymru, yr ymrwymiad i bobl gael mynediad i ddysgu'r Gymraeg ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru, yr egwyddor bod addysg yn sgil addysgol hanfodol a ddylai fod yn angenrheidiol i bob disgybl. Rhaid gwneud yn glir drwy'r Strategaeth hon bod yr iaith Gymraeg **yn perthyn i bob un sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddo ef neu hi.**

Mae siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru a dylai hyn fod yn ystyriaeth greiddiol yn y polisi o ran egwyddor. Mewn cyfarfod yng Ngaeaf 2009 â'r Gweinidog Treftadaeth, nodwyd nad yw'r Sat Nav wedi ei osod hyd yn hyn mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Credwn yn gryf fod angen gosod y gyrcfan, a gosod polisiâu cadarn mewn lle er mwyn gwneud y nod o Gymru ddwyieithog yn fwy cyraeddadwy ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru. Os nad oes eglurdeb a hyder yn y naratif ynghylch dyfodol y Gymraeg a'r sicrwydd o allu ei defnyddio o ddydd i ddydd, sut mae modd i bobl Cymru ymddiried yn yr heol yma tuag at 'ddwyieithrwydd'?

Yn ogystal, credwn fod angen i'r Llywodraeth gymryd sylw o'r ffaith bod miloedd ar filoedd o bobl yng Nghymru yn rhoi eu ffydd yn y Gymraeg er nad ydynt yn ei siarad. Yn sawl lle yng Nghymru mae cefnogaeth greiddiol i'r Gymraeg gan Gymry di-Gymraeg - mae'r galw enfawr am addysg Gymraeg

yn un mynegiant o hynny. Wrth wneud safiad mwy radical fel Llywodraeth bydd modd chwalu'r myth fod y Gymraeg yn bwnc tabŵ ymysg Cymry di-Gymraeg a datblygu deialog aeddfed gyda'r rheiny sydd efallai yn fwy llugoer eu hagweddu tuag at yr iaith.

Credwn y dylai'r Llywodraeth fod yn agored am y nod o normaleiddio'r iaith Gymraeg. Nid oes angen celu cymhellion gwleidyddol o blaid yr iaith Gymraeg. Dyna pam y credwn y dylai'r Llywodraeth gydnabod ar ddechrau'r Strategaeth Iaith Gymraeg fod mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn llawer anos na chael mynediad at y Saesneg. Mae cydnabod hyn yn gam cyntaf at greu strategaeth sydd yn ceisio gwneud iawn am y sefyllfa hon a felly bydd angen i'r Llywodraeth greu polisiâu cryf a radical sydd yn gweithredu 'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg.

Oherwydd y camwedd a wynebodd y Gymraeg y mae angen mesurau yn ymwneud â'r iaith, ac mae angen cyfathrebuhynerbudddealltwriaethpoblyngNghymru nad ydynt yn deall fod yr iaith Gymraeg yn etifeddiaeth gyffredin i bawb sy'n dewis Cymru fel cartref.

Mae cwestiynau'r strategaeth iaith yn gosod y cyfrifoldeb o ddefnyddio'r Gymraeg yn llwyr ar yr unigolyn. Mae obsesiwny Llywodraethgydadewisiadau unigolyddol yn llesteirio'r drafodaeth ynghylch prifffrydio'r Gymraeg fel iaith normal yng Nghymru. Seithug fydd canolbwyntio'r drafodaeth ar hyn, y syniad o roi'r bai ar y bobl oherwydd lefel disgwyliad isel. Digon hawdd yw beio'r dioddefwr pan nad oes cyd-destun cymdeithasol teg yn cael ei greu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Yng nghwestiwn 9© sonnir am lwyddiant cyfieithu'r wefan gymdeithasol Facebook i'r Gymraeg, ond drwy ddycnwch gwirfoddolwyr y gwnaed hyn, ac oherwydd diwylliant agored y we sy'n annog defnyddwyr i addasu eu cynnyrch. Yng nghwestiwn 2, gofynnir sut i annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, ond rhaid ystyried bod cyd-destun cymdeithasol y tu allan i'r ysgol yn Saesneg, boed ar y stryd fawr neu'n weithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol sy'n darparu addysg trwy gyfrwng

y Gymraeg yn anghyson wrth gynnig gwersi nofio neu wersi pêl-droed drwy'r Saesneg yn bennaf.

### **Beth yw cyfrwng iaith unrhyw fuddsoddiad?**

Dylid ystyried faint o arian sy'n cael ei wario ar yr iaith Gymraeg o fewn cyd-destun yr holl weithgareddau a gyllidir gan y Llywodraeth. Mae pob gweithgaredd, beth bynnag fo'r maes, yn digwydd drwy gyfrwng rhyw iaith neu'i gilydd, a thrwy'r Saesneg yn amlach na pheidio, ond dydyn ni byth yn dweud fod y gwariant hwn yn fuddsoddiad yn yr iaith Saesneg yng Nghymru, oherwydd mai dyna'r iaith de facto. Saesneg yw'r iaith hegemonaid felly nid yw'n cael ei farcio fel cyfrwng buddsoddiad. Mae gwaith sy'n digwydd drwy'r Gymraeg yn dueddol o fod mewn bocs, neu'n is-gategori, gan bwysleisio nad iaith prif-ffrwd yw'r Gymraeg. Dylid sicrhau bod buddsoddiadau yn fuddsoddiadau iaith Gymraeg fel bod yr iaith yn weithredol ac yn rhan o'r economi.

Yn y pymtheg mlynedd diwethaf, mae sefydliadau, cyrff, busnesau, drwy fesurau a normaleiddio egwyddorion wedi gorfod gwrandao ar yr agenda werdd. Mae pob sefydliad/corff yn gorfod ystyried ei hôl-troed carbon ac ystyried faint maen nhw wedi effeithio ar yr amgylchedd. Oni ddylid ystyried **ôl-troed ieithyddol** yn yr un modd, a mesur sut maen nhw'n annog neu'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith weithredol? Byddai hon yn un ffordd, â chynsail yr agenda werdd, i fesur cynnydd o ran defnyddio'r Gymraeg.

### **Cymraeg yn Hanfodol**

Credwn yngryffod rhaid creucyd-destuncymdeithasol er mwyn gwneud y Gymraeg yn berthnasol i bobl Cymru. Yn ogystal, rhaid gwneud yr iaith yn hanfodol yng ngweithrediad sefydliadau, cyrff a busnesau. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif ynglŷn â chreu gweithleoedd lle bydd pobl yn gweithio drwy'r Gymraeg, mae dyletswydd arnyn nhw i ddangos arweiniad. Credwn y dylai swyddfeydd Llywodraeth yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Llandudno weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un modd â Chyngor Gwynedd. Siomedig oedd gweld y nifer o staff sydd yn dysgu'r Gymraeg ym mhencadlys Llywodraeth y Cynulliad yn gostwng. A yw'r Llywodraeth wedi ymchwilio pam nad yw'r staff yn gweld yr angen i ddysgu? Mae angen gofyn y cwestiynau hyn fel â pholisiau eraill. Dylai'r Llywodraeth osod targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth sifil.

Dylai Cyrff cyhoeddus yn ein cymunedau Cymraeg gymryd camau penodol er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn dod yn rhan hanfodol o'u holl waith. Yn y pendraw, golyga hyn eu bod yn troi i fod yn gyrrff sydd yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfieithu i'r Saesneg yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau na chaiff trigolion di-Gymraeg eu hamddifadu o wasanaethau. Gellir galw y nod hwn yn 'Ddwyeithrwydd Cymraeg'. Golyga hyn wydroi'r drefn bresennol o ddwyeithrwydd Saesneg, lle bo cyrff fel Cyngorau Sir, Asiantaethau Cyhoeddus a Cholegau Addysg yn cyflawni bron y cyfan o'u gwaith yn Saesneg gan ddibynnu ar gyfieithu er mwyn cyflwyno delwedd ddwyeithog i'r cyhoedd. O dan y drefn newydd o gyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg, cofnodid cost cyfieithu fel gwariant ar y Saesneg. Nid yw Cymdeithas yr Iaith yn ceisio dynodi un 'Fro Gymraeg' benodedig. Yn hytrach, amlinellir trefn ieithyddol newydd ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r nod o 'Ddwyeithrwydd Cymraeg' yn un y gall pob corff (megis megis Cyngorau Sir - naill ai'n gyfangwbl neu swyddfeydd ardal penodedig, Sefydliadau Addysg, Asiantaethau Cyhoeddus ac Achrannau Llywodraeth) ym mhob ardal o Gymru anelu tuag ato.

Serch hynny, o ganlyniad i wahaniaethau rhwng ardaloedd, mae'n anochel y bydd rhai cyrff, mewn rhai ardaloedd, yn symud yn gynt na'i gilydd. Ar hyn o bryd, disgwyliwn i'r cyrff cyhoeddus hynny sydd yn gwasanaethu llawer o'n cymunedau Cymreiciol megis y rhan fwyaf o siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin ynghyd â rhannau o Benfro, Powys, Conwy, Dinbych ac Afan-Nedd i ddechrau gweithredu polisi o'r fath yn syth - er mwyn gwneud y Gymraeg yn hanfodol i fywyd cyhoeddus ynddynt. Gall fod amser maith iawn cyn bod cymunedau eraill yn barod i ddilyn yr un llwybr.

Gallai cyrff cyhoeddus mewn nifer o ardaloedd ac mewn nifer o feysydd (yn enwedig addysg) gael trawsnewidiad buan i fod yn gyrrff sy'n gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd a sefyllfaoedd eraill hyd yn oed yn ein cymunedau Cymraeg, bydd angen gosod targed ac amserlen rhesymol i gyflawni'r trawsnewidiad. Yr hyn sydd bwysig yw eu bod nhw ar y ffordd tuag at wneud y Gymraeg yn hanfodol a bod pawb yn deall y cyfeiriad.

# Mesur Iaith 2010

*"The Right to use a regional or minority language in private and in public life is an inalienable right"*

Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

Credwn y dylai'r mesur iaith gynnwys y pum elfen ganlynol:

yn eang iawn fel ffordd gwbl ymarferol o gynyddu llwyddiant iaith leiafrifol.

## (I.) Statws swyddogol i'r Gymraeg

Byddai rhoi statws cyfreithiol i'r Gymraeg yn ddatganiad clir i bawb yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, a'r byd. Mae dryswch ym meddyliau'r cyhoedd ynghylch statws cyfreithiol yr iaith, yn amlwg.

Bydd rhoi statws swyddogol statudol i'r Gymraeg yn sicr o gyflawni sawl amcan pwysig gan gynnwys:

- Datganiad diamheuol ynglŷn â phwysigrwydd safle'r Gymraeg ym mywyd Cymru
- Sylfaen gref ar gyfer sefydlu hawliau i bobl fedru defnyddio a chael mynediad i'r Gymraeg
- Grymuso pobl Cymru i fod â mwy o hyder yn y Gymraeg, i weld ei gwerth, i'w pherchen fel budd cenedlaethol a'i gwneud yn berthnasol i fywydau pawb sy'n byw yng Nghymru
- Sylfaen gref ar gyfer sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg ac atal camwahaniaethu
- Datganiad clir bod defnyddio'r Gymraeg yn gyfreithlon ac yn gwbl ddilys yng Nghymru
- Neges i lywodraethau, cwmnïau, cyrff ac unigolion y tu allan i'r wlad bod gan Gymru iaith unigryw sy'n rhan ganolog ac integral o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae sicrhau statws swyddogol drwy ddeddfwriaeth iaith yn gam a gydnabyddir

## (II.) Cydnabod y Gymraeg yn briod iaith Cymru

Galwn ar y llywodraeth i gydnabod y Gymraeg yn briod iaith Cymru. Mae hi'n etifeddiaeth gyffredin i holl drigolion Cymru, boent yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae gan y Gymraeg berthynas unigryw â Chymru. Mae Cymru wedi bod yn wlad aml-ieithog erioed, ond drwy gydol ei hanes mae'r Gymraeg wedi bod yn gyfrwng byw ac yn brif sail ein hunaniaeth genedlaethol. Nid Cymraeg yw ei hunig iaith, ond hi yw ein 'hiaith genedlaethol'. Nid yw'r egwyddor o briod iaith yn un unigryw i Gymru. Dyna'r egwyddor sylfaenol y tu ôl i ddeddfwriaeth ieithyddol yng Ngwlad y Basg a Chatalunya. (Mae'r egwyddor hwn yn sail i wneud y Gymraeg yn hanfodol yng ngweinyddiaeth gyhoeddus Cymru, sef yr hyn a nodwyd uchod dan y teitl 'Cymraeg yn Hanfodol'.)

## (III.) Hawliau i'r Gymraeg

Ar hyn o bryd nid oes gan bobl Cymru ddim hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg ac eithro'r hawl amodol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys barn. Mae diffinio hawliau pendant yn ffordd syml ac effeithiol o sicrhau bod pobl yn medru defnyddio'r Gymraeg gydag urddas. Yn sgil goblygiadau globaleiddio a grym corfforaethau rhyngwladol enfawr mae cydnabod hawliau yn gyfreithiol yn gam hanfodol. Yn wir, dim ond drwy bennu hawliau drwy ddeddfwriaeth y gallwn fod yn sicr y bydd cyrff a chwmnïau yn gweithredu'n ddwyieithog.

Galwn ar Lywodraeth Cymru'n Un i osod hawliau i'r Gymraeg yn y meysydd sydd wedi eu datganoli.

Os yw'r Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar gorff

i ddarparu yn y Gymraeg, yna dylent hyrwyddo'r gwasanaethhwnnw'neanghefyd. Ganybyddyrhawliau yn anwastad iawn, mae'n bwysig bod dyletswydd yn cael ei osod ar gyrff i farchnata a chreu maes chwarae gwastad i'w gwasanaethau Gymraeg a Saesneg.

Rydym wedi awgrymu sut y gallai'r rheoliadau fabwysiadu dull incremental o gyflwyno a gweithredu hawliau. Er enghraifft, credwn ei bod yn synhwyrol sefydlu disgwyliadau uwch oddi wrth gwmnïau mawr rhyngwladol, cyrff cyhoeddus ac elusennau mawr gyda disgwyliadau is oddi wrth gwmnïau preifat a mucladau gwirfoddol bychain lleol. Mae rhannau o'r sector wirfoddol wedi bod yn fwy blaengar o ran eu defnydd o'r Gymraeg oherwydd eu bod yn parchu urddas eu cefnogwyr sy'n siarad Gymraeg. Credwn fod y trydydd sector yn cynnig gwasanaethau pwysig, yn enwedig i bobl fregus, felly mae'n hanfodol bod hawliau i'r gwasanaethau hyn ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Pwysleisiwn ei bod yn bwysig iawn bod gan y ddeddf rym digonol i gynnwys pob sector yn wyneb datblygiadau technolegol a newidiadau sylweddol yn y modd y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd.

Credwn hefyd fod angen i'r rheoliadau greu isafswm o ddisgwyliadau gan adeiladu disgwyliadau uwch dros amser.

Dyma rai hawliau sylfaenol y credwn sydd angen eu cynnwys:

(1.) Yr hawl i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn cyrraedd i'r cartref, ac i gael bod yn ddwyieithog wrth adael yr ysgol.

(2.) Yr hawl i gael gwasanaethau, gwybodaeth, cyfleustodau a nwyddau yn Gymraeg wrth ddelio gyda'r sectorau sydd wedi eu datganoli. Dylai fod gan bob person yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau drwy'r Gymraeg boed y gwasanaethau hynny am dâl ai peidio.

(3.) Yr hawl i ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle.

(4.) Yr hawl i gymuned leol wrthod neu osod amodau ar gais cynllunio ar sail effaith ar y

Gymraeg.

(5.) Yr hawl i rentu cartrefi yn eich cymuned am rent rhesymol ac mewn cyflwr boddhaol.

(6.) Yr hawl i barch ac i fod yn gyfartal ac i beidio dioddef anffafiaeth neu anfantais wrth ddefnyddio neu arddel y Gymraeg

(7.) Yr hawl i siarad Gymraeg, gan gynnwys yr hawl i'w siarad yn y gwaith

Yn unol â'r uchod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gymryd pob cam priodol i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg a'u hyrwyddo.

Yn ogystal â'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus, o dan y gorchymyn datganolwyd ychydig rannau o'r sector preifat i'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd. Mae'r sectorau preifat hynny yn cynnwys trenau a bysiau, cyfleustodau, gwasanaethau post, cwmnïau a chyrrff sy'n derbyn dros £400,000 o arian cyhoeddus yn flynyddol a chwmnïau telegyfathrebu. Yn y sectorau hynny, credwn y dylai cwmnïau gynnig pob gwasanaeth maent yn ei gynnig i'r cyhoedd yn y Gymraeg.

## **Rhestrwn isod y math o wasanaethau sylfaenol yn y meysydd penodol y byddwn yn disgwyl eu gweld yn y Gymraeg:**

### **A. Trenau a bysiau**

- Prynu tocynnau,
- ffurflenni,
- hawl i staff siarad a dysgu'r Gymraeg,
- gwasanaethau arlein,
- amserlenni
- gwybodaeth i'r cyhoedd,
- cyhoeddiadau,
- arwyddion a marchnata ayb

### **B. Cyfleustodau – trydan, nwy, dŵr, band-llydan:**

- billiau
- gwasanaethau talu
- ffurflenni



- hawl i staff siarad a dysgu'r Gymraeg
- gwasanaethau arlein
- gwybodaeth i'r cyhoedd
- gwasanaethau ffôn
- gohebiaeth yn cael ei ddanfôn at bob cwsmer yn ddwyieithog gyda'r dewis o beidio derbyn gohebiaeth Gymraeg ar gais
- arwyddion a marchnata

### C. Gwasanaethau telegyfathrebu

Yr unig faes newydd cyflawn o'r sector breifat; dylai hwn fod yn faes lle sefydlir hawliau i'r Gymraeg:

- Gosod dyletswydd ar y cwmni i hysbysebu eu gwasanaethau Cymraeg yn glir ac yn effeithiol gan gynnwys i gwsmeriaid y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a'r gwasanaeth cyfrwng Saesneg
- biliau Cymraeg
- gohebu â'r cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg a chael ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg
- llinell ffôn yn cynnig gwasanaethau llawn drwy gyfrwng y Gymraeg
- pob gwasanaeth ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg
- hysbysebu a marchnata dwyieithog mewn manau cyhoeddus
- cynnyrch a ddarperir gan y cwmnïau gan gynnwys meddalwedd sylfaenol yn Gymraeg

### Ch. Swyddfeydd Post

- gwasanaethau ariannol
- ffurflenni
- hawl i staff siarad a dysgu'r Gymraeg
- gwasanaethau arlein
- gwybodaeth i'r cyhoedd
- gwasanaethau ffôn
- gohebiaeth
- cyhoeddiadau
- arwyddion a marchnata ayb



# Cardiff Bus

## BWS CAERDYDD

### Astudiaeth Achos 1: Bws Caerdydd

Mae Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith wedi trio cysylltu â Bws Caerdydd ynglŷn â'r diffyg gwasanaethau Cymraeg a ddarparwyd ganddynt, gan gynnwys y broblem mai dau air Cymraeg yn unig sydd ar wefan y cwmni.

Mae cwmni Bws Caerdydd yn gwmni annibynnol, felly nid oes ffordd i gynghorwyr newid polisi'r cwmni eu hunain, er bod gan y cyngor un aelod ar fwrdd gweithredol y busnes.

Gwrthododd Rheolwr-Gyfarwyddwr y cwmni David Brown gwrdd â chynrychiolwyr y Gell. Fe ddywedodd:

*"We meet with the WLB at least once a year to discuss progress... The current arrangements have seen a sustained increase in the use of Welsh at Cardiff Bus in recent years. We believe that the WLB is the appropriate organisation to work with in developing our use of the Welsh Language, and that the introduction of a third party into the process at this time would merely complicate matters."*



# Southern Electric

energy made better

### Astudiaeth Achos 2:

### Scottish & Southern Electricity -

### Chris Griffiths, Maesteg

Cyrhaedda biliau cwsmer Scottish and Southern Electricity Chris Griffiths yn hwyr, neu ddim o gwbl, oherwydd ei fod wedi gofyn amdanynt yn Gymraeg. O ganlyniad, derbynia filiau yn ei rybuddio am dalu'n hwyr, ond maent yn Saesneg yn unig. Fe ysgrifennodd at y cwmni yn cwyno am y sefyllfa, ond heb lwyddiant. Dywedodd Chris wrthym "Gyda'r polisi yma pwy fydd yn ddewis gofyn am bil Gymraeg?"

**(IV.) Rhyddid i siarad Cymraeg**

Credwn y dylai'r rhyddid hwn gael ei ailddiffinio fel mater o hawl er mwyn rhoi terfyn ar unrhyw orthrwm yn erbyn dinasyddion sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r rhyddid eisoes gyda ni - yr hawl sy'n bwysig. Ni chytunwn ar unrhyw gyfyngiadau ar yr hawl honno.

Credwn fod sefydlu'r hawl i siarad Cymraeg yn bwysig, yn enwedig yn y gweithle. Mae nifer o achosion wedi dangos bod cyflogwyr wedi gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr sydd yn dewis defnyddio'r Gymraeg, er bod rhai achosion wedi cael sylw yn y wasg, mae'r Gymdeithas yn ymwybodol bod llawer mwy o broblemau anhysbys tebyg yn digwydd ledled Cymru. Yn rheolaidd, rydym, fel mudiad, yn derbyn galwadau ffôn wrth weithwyr sydd yn cael ei rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ond, achos pryderon pobl am gollu eu swyddi, yn naturiol nad yw'n bosibl hysbysebu'r problemau.

Dylai'r mesur gynnwys datganiad clir: ni chaiff cyflogwr wahardd defnydd o'r Gymraeg rhwng cyflogeion â'i gilydd na rhwng cyflogeion a'r sawl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir ganddynt os bydd y naill barti a'r llall yn cydsynio i ddefnyddio'r Gymraeg.

Hefyd, o ystyried y problemau a wynebwyd gan unigolion yn y gorffennol, dylid diogelu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn yr un ffordd â materion cydraddoldeb eraill.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth 2003 yn datgan ei bod yn anghyfreithlon i gyflogwr wahaniaethu yn erbyn rhywun os ydynt yn anabl neu'n hoyw e.e. drwy eu diswyddo, neu eu trin mewn unrhyw ffordd negyddol arall. Mae'r rhai sy'n dewis siarad Cymraeg yn haeddu'r un amddiffyniadau.

Dylai pob cyflogwr yng Nghymru wneud trefniadau priodol i alluogi aelodau o'i staff i weithio drwy'r Gymraeg. Dylai fod gan bob person a gyflogir yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau personél sylfaenol yn Gymraeg, gan gynnwys contract neu ddatganiad cyflogaeth yn Gymraeg, telerau ac amodau cyflogaeth yn Gymraeg, gwybodaeth am bolisiau

**Astudiaeth Achos 3: Thomas Cook**

Yn 2007, penderfynodd cwmni teithio Thomas Cook ofyn i'w staff beidio â thrafod eu gwaith yn Gymraeg. Roedd y cwmni wedi dweud y dylai sgysiau am y gwaith fod yn Saesneg am mai hon oedd "yr iaith oedd yn cael ei defnyddio fwya ym Mhrydain". Doedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hillol ar y pryd ddim yn hollol sicr bod ymddygiad y cwmni yn anghyfreithlon neu beidio.

**Astudiaeth Achos 4**

Eleni, fe gysylltodd person, sydd yn gweithio i gorff cyhoeddus yn y canolbarth, â'r Gymdeithas oherwydd gwrthodiad y cyflogwr gadael iddo/i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Oherwydd natur yr achos, nid allwn ryddhau enw'r person na rhagor o fanylion.

**MORRISONS****Astudiaeth Achos 5: Morrisons**

Fis Mai 2009, ataliwyd gweithiwr ym Morrisons Caerdybi, Mr David Evans, rhag siarad Cymraeg gyda'i gydweithwyr gan reolwr y siop. Cafodd Mr David Evans, a oedd yn gweithio yn y siop, ei rybuddio gan Reolwr Morrisons sawl gwaith na ddylai siarad Cymraeg gyda'i gydweithwyr. Penderfynodd Mr Evans na allai ddiodeff y sefyllfa ymhellach a gadawodd ei swydd.

craidd y cyflogwr yn Gymraeg gan gynnwys polisi iaith, polisi cydraddoldeb, a pholisi iechyd a diogelwch; ac arwyddion a hysbysiadau Cymraeg yn y gweithle.

Mae gan bob person yng Nghymru sy'n aelod o undeb llafur yr hawl i gyfranogi o weithgareddau'r undeb hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n rhaid i'r undeb hwnnw wneud trefniadau priodol i alluogi hyn gan roi sylw neilltuol i'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt – gwybodaeth am delerau aelodaeth; gwybodaeth am wasanaethau i aelodau; gwybodaeth am bleidleisiau gan gynnwys y papurau pleidleisio; a mynediad at swyddogion o'r undeb sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Dylai fod gan bob person yng Nghymru y mae'n rhaid iddo feddu ar dystysgrif neu ddiploma broffesiynol cyn arfer ei broffesiwn yn gyfreithlon yr hawl i geisio am y dystysgrif neu'r ddiploma honno yn llwyr neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl ei ddymuniad ef, a rhaid i'r cyrff sy'n dyfarnu'r dystysgrifau neu'r diplomâu hynny wneud trefniadau priodol i alluogi hyn i ddiwydd.

Dylai fod gan bob person yng Nghymru, y mae'n rhaid iddo fod yn aelod o gorff proffesiynol i arfer ei broffesiwn yn gyfreithlon, yr hawl i ymgymhwysu ar gyfer y proffesiwn hwnnw yn llwyr neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl ei ddymuniad ef; ac i gyfranogi o weithgareddau'r corff proffesiynol hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg; ac felly mae'n rhaid i'r corff proffesiynol hwnnw wneud trefniadau priodol i alluogi hyn.

### **(V.) Comisiynydd Iaith Gymraeg a Chyngor yr Iaith Gymraeg**

Gan nad oes hawliau cyfreithiol gennym i'r Gymraeg ar hyn o bryd, does dim angen trefn i sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod beth yw hawliau a does dim angen neb i sefyll i fyny drostynt pan fydd cyrff neu unigolion yn ceisio nacau eu hawliau iddynt. Ond, pan fydd y Cynulliad yn deddfu i sefydlu hawliau iaith bydd angen creu trefn i ddiogelu'r hawliau hyn. Bellach, mae gyda ni swyddi comisiynydd i ymorol am fuddiannau carfanau gwahanol yn ein cymdeithas fel plant a phobl hŷn; mae pwysigrwydd sefydlu swyddogaethau Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn amlwg.

Nid galw ydyn ni am sefydlu swydd i swyddog diddannedd basio barn achlysurol ar weithrediad ambell gynllun iaith, ond am greu eiriolwr grymus ac annibynnol fydd yn diogelu hawliau pawb yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gynghori ac, os bydd angen, drwy orfodi'r gyfraith.

Mi ddylai fod gan y Comisiynydd ryddid i sylwebu a chynnal ymchwilladau mewn meysydd ehangach na'r rhai a ddatganolwyd.

Credwn y dylai rôl y Comisiynydd gwmpasu'r isod:

- bod yn eiriolwr cryf ac annibynnol dros siaradwyr Cymraeg
- hysbysu pobl Cymru am eu hawliau i'r Gymraeg
- hysbysu darparwyr gwasanaethau ym mhob sector am eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth iaith
- sicrhau'r cyngor gorau i'r Llywodraeth a chyrrff eraill mewn perthynas â'r ddeddf newydd
- cyfrwng effeithiol i fonitro cydymffurfiaeth â'r ddeddf
- y gallu i ymchwilio'n drwyadl i gwynion a naill ai erlyn cyrff sy'n tramgwyddo gofynion y ddeddf neu gynorthwyo unigolion sydd am orfodi eu hawliau yn y llysoedd. Creu Comisiynydd o statws digonol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wireddu holl botensial deddfwriaeth newydd.

Cydnabyddwn fod rôl bwysig iawn i'w chwarae gan Fwrdd yr Iaith (BYIG) wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Dyma un o wendidau'r system bresennol oherwydd nad oes modd i'r un corff fod yn gyfrifol am gosbi cyrff nad ydynt yn cydymffurfio/ymateb i gwynion yn ogystal â chyflawni'r rôl o'u hannog i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a'u cynghori ar gynnwys Cynllun Iaith. Nid yw'n gam yn ôl i allu mynd â rhywun i'r llys oherwydd dyma'r union rym sydd ei angen er mwyn gallu rheoleiddio'r ddeddf a dangos difrifoldeb y sefyllfa.

Er bod Cymdeithas yr Iaith wedi cefnogi bodolaeth corff lled-braich sydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r iaith, mae gan aelodau'r Gymdeithas bryderon parthed diwylliant presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Teimlwn fod nifer o gwmnïau yn defnyddio'r Bwrdd fel arf cysylltiadau cyhoeddus yn hytrach na ffordd o ddarparu gwasanaethau Cymraeg cynhwysfawr.

Mae BYIG yn datgan bod dros gant o gwmnïau wedi ysgrifennu 'polisi' iaith, mewn cydweithrediad â nhw. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ystadegau yn galonogol, ond y gwir yw nad yw'r polisiâu yn golygu y darperir unrhyw wasanaeth o gwbl. Oni ddylai polisiâu iaith wedi'i ffurfio gan BYIG warantu gwasanaethau sylfaenol yn y Gymraeg? Gyda chynlluniau tebyg yn y sector twristiaeth er enghraifft, mae'r awdurdodau neu gyrff yn gwirio'r safonau a ddarparwyd neu eu hadolygu'n flynyddol. Hefyd, teimlwn fod angen ar y Comisiynydd a Chyngor yr Iaith y gallu i herio safbwynt y Llywodraeth a Gweinidogion unigol. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol penodi'r Comisiynydd ac aelodau Cyngor yr Iaith trwy ddefnyddio system benodi gwahanol, gan gynnwys gwrandawiadau cyn-benodi cyhoeddus, er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar enwebiadau i'r swyddi hyn.

### Cyngor yr Iaith Gymraeg

Fel y nodwyd uchod, ni chredwn y dylai un corff fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r iaith a'i rheoleiddio, felly awgrymwn sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg (Y Cyngor) fel corff hyrwyddo corfforaethol wedi'i benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai rhaid i'r Cyngor gael adnoddau digonol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau. Dylai aelodaeth y Cyngor gynrychioli amrywiaeth o brofiadau personol a/neu broffesiynol, gan gynnwys profiadau siaradwyr Cymraeg, dysgwyr, darparwyr gwasanaethau Cymraeg, Cymraeg yn y gweithle; ac addysg Gymraeg.

Swyddogaethau'r Cyngor fyddai:

- hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a'r wybodaeth o'r Gymraeg fel priod iaith Cymru ac iaith swyddogol;
- hybu gwybodaeth am y Gymraeg;
- cynghori Gweinidogion Cymru, neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar eu cais hwy neu'n wirfoddol, ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
- ceisio a derbyn sylwadau gan unigolion a

grwpiau buddiant am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;

- comisiynu atlas sosioieithyddol o Gymru a fydd ymhlith pethau eraill yn dangos yn ôl oedran, rhyw, dosbarth economiadd, lle geni, ethnigrwydd ac unrhyw agwedd arall sydd yn berthnasol ym marn y Cyngor fedrau yn y Gymraeg, defnydd o'r Gymraeg ac agweddau tuag at y Gymraeg ac unrhyw agwedd arall sydd yn berthnasol ym marn y Cyngor ac yn benodol yn nodi ym mha ardaloedd o Gymru y mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu – byddai rhaid adolygu'r atlas bob pum mlynedd.
- comisiynu ymchwil berthnasol arall ar y Gymraeg.

Byddai rhaid i'r Cyngor lunio codau ymarfer, ar ol ymgynghori, ar y safonau gofynnol sylfaenol ar gyfer gwasanaeth ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth o fewn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Wrth bennu'r safonau gofynnol sylfaenol hyn, rhaid i'r Cyngor dalu sylw priodol i gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg a wnaed o dan adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau nad yw'r safonau gofynnol sylfaenol yn lleihau'r ymrwymadau a waned yn y cynlluniau hyn o ran nifer, ystod, na safon. Ni fyddai methu a chydymffurfio â darpariaeth meincod ynddo'i hun yn gwneud person yn agored i achos troseddol na sifil, ond byddai cod yn dystioleth dderbyniol mewn achos troseddol a sifil, a rhaid i god gael ei ystyried gan lys neu driwbwnlys ym mhob achos pan fydd yn ymddangos i'r llys neu i'r tribiwnlys ei fod yn berthnasol.

# Mesur sy'n rhoi hawliau i'r Gymraeg – y Dyfodol

Pan fydd pwerau llawn dros yr iaith Gymraeg wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd gan Lywodraeth Cymru y cyfle i ehangu ar yr egwyddor o hawliau ym Mesur Iaith Gymraeg 2010 a gosod hawliau cyflawn i'r Gymraeg.

Yn y cyd-destun pan fydd gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau deddfu llawn, dylid sefydlu hawliau a fyddai'n sicrhau hawl pawb yng Nghymru i ddefnyddio, dysgu a chael mynediad i'r Gymraeg yn ôl eu dewis.

- Yr hawl i weld a chlywed y Gymraeg o'n cwmpas a byw mewn gwlad ble mae'r iaith yn swyddogol ac yn fyw.
- Yr hawl i gael gwasanaethau, gwybodaeth,

cyfleustodau a nwyddau yn Gymraeg wrth ddelio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

- Yr hawl i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg yn y gwaith.
- Yr hawl i barch ac i fod yn gyfartal ac i beidio profi camwahaniaeth wrth ddefnyddio neu arddel y Gymraeg.
- Yr hawl i gael gwrandawriad llys a rheithgor yn Gymraeg.

Gweler *Mesur Iaith 2007* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 2007)

## Diweddsglo

Rydym yn edrych ymlaen am drafodaeth flaengar ynghylch y strategaeth iaith Gymraeg a'r mesur iaith.

Nid ydym eisiau gweld dyfodol y Gymraeg mewn amgueddfa neu ar ymylon cymdeithas yn unig. Rydym eisiau gweld y Gymraeg yn iaith fyw yng Nghymru a gweld ei diwylliant yn cael ei pherchnogi gan bawb sy'n dewis gwneud Cymru'n gartref iddynt. Mae effaith seicolegol y sarhad o beidio gallu cael yr urddas i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn amgylchiadau swyddogol dros genhedlathau

wedi cael effaith andwyol ar hyder a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad, bydd eisiau ymgais hyd yn oed yn fwy i geisio gwneud iawn am hyn a newid seicoleg pobl ynglŷn â iaith a byw mewn gwlad â mwy na un iaith. Rhaid i hynny ddechrau â hyder y Llywodraeth i osod y cynsail i hynny ddigwydd. Fel y dywedodd Hywel Teifi Edwards: 'Ni ein hunain sydd i iachau y wlad ma lle mae'r iaith yn y cwestiwn' meddai, 'drwy ein cynrychiolwyr yng Nghaerdydd.' Er mwyn i'r Gymraeg fyw, rhaid i bopeth newid.

### CYSYLLTIU:

01970 624501  
post@cymdeithas.org  
www.cymdeithas.org

**Prif Swyddfa**, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ  
**Swyddfa Caerdydd**, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF24 3AJ  
**Swyddfa'r Gogledd**, 10 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RR.  
**Swyddfa Dyfed**, Dolwerdd, Llanfihangel ar Arth, Pencader, SA39 9JU